Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith Prentisiaethau yn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Rhif y Fframwaith: FR04446 **Rhifyn:** 8 **Dyddiad:** 01/09/2019

Cytunwyd ar gynnwys y Fframwaith hwn gan Skills for Care & Development ac maent wedi'i gyhoeddi.

TROSOLWG:

Mae'r Fframwaith hwn yn nodi'r safonau a'r meini prawf ar gyfer cyflwyno darpariaeth hyfforddiant Lefelau 2 a 3 o fewn y sector Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Os cwblheir y ddarpariaeth, caiff cymhwyster wedi'i ddynodi/reoleiddio ei ddyfarnu.

Mae Prentisiaeth Lefel 2 yn addas ar gyfer amrywiaeth o rolau, gan gynnwys cynorthwyydd gofal, cynorthwyydd gofal iechyd, gweithiwr gofal preswyl a gweithiwr cymorth gofal iechyd.

Mae Prentisiaeth Lefel 3 yn addas ar gyfer amrywiaeth o rolau, gan gynnwys gweithiwr gofal iechyd, uwch-weithiwr gofal preswyl, swyddog gofal dydd ac uwch-weithiwr cymorth.

DEILLIANNAU GORFODOL

Bydd y corff dyfarnu priodol yn gwirio sut yr asesir cyflawni'r cymwysterau hyn. Rhaid i unigolion gwblhau:

- Naill ai gymhwyster cymhwysedd a gwybodaeth neu gymhwyster sy'n cyfuno'r ddwy elfen o un o'r llwybrau canlynol
- Sgiliau Hanfodol a'r Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth a nodir isod

Llwybrau ar gyfer y Fframwaith hwn ar lefel 2:
Llwybr 1: y Sector Iechyd Llwybr 2: Gofal Cymdeithasol (Oedolion)

Llwybrau ar gyfer y Fframwaith hwn ar lefel 3:
Llwybr 1: y Sector Iechyd Llwybr 2: Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Llwybr 3: Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc)

Sgiliau Hanfodol Cymru:
Lefel 2 Prentisiaethau
Lefel Cymhwyso Rhif 1, Lefel Gyfathrebu 1, Lefel TGCh 1

Lefel 3 Prentisiaethau
Lefel Cymhwyso Rhif 2, Lefel Gyfathrebu 2, Lefel TGCh 2

Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth

Mae'r wybodaeth a'r broses sefydlu sylfaenol sy'n ymwneud â Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth yn y gweithle yn ofynnol.

RHAGOR O WYBODAETH

I weld cynnwys y Fframwaith hwn a'r fanyleb lawn, cysylltwch: Skills for Care & Development